**EITEM AR YR AGENDA: 17**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**17eg Hydref 2011**

## PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL

**Adroddiad gan Colin Everett, Clerc i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Nodi adroddiad Blynyddol Drafft y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2011, ac argymhellion sy'n effeithio ar yr awdurdod a'r ymateb a wnaed gan y Clerc. (Atodiad 1 a 2 yn cyfeirio).

## Cefndir

2 Fe wnaeth y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol gyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol drafft 2011 ym mis Gorffennaf, i ddiben ymgynghori.

3 Adroddiad Blynyddol drafft y Panel yw'r cyntaf ers i'r Panel gael ystod o bwerau newydd yn dilyn y Mesur Llywodraeth Leol 2011. Yn yr adroddiad hwn, mae'r Panel wedi gwneud penderfyniadau ynglŷn ag ystod a lefel y lwfansau ar gyfer aelodau Awdurdodau Lleol, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân.

## Ystyriaethau

4 Yn gryno, bydd penderfyniadau'r Panel ynglŷn â chydnabyddiaeth ariannol i aelodau yn effeithio ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru fel a ganlyn (dangosir y manylion llawn yn Atodiad 3):

### Cyflogau

- Ar hyn o bryd, bydd Aelodau sy'n derbyn y lwfans sylfaenol yn cael eu talu am ymrwymiad o 16 niwrnod y flwyddyn ar gyfradd Cyflog Sylfaenol o £1,350 y flwyddyn
- Bydd Cadeirydd yr Awdurdod yn derbyn Uwch Gyflog ATA Cymru sy'n gyson â chyflog Band 3 (£10,085)

- Bydd Is-Gadeirydd yr Awdurdod yn derbyn Uwch Gyflog sy'n gyson â chyflog Band 4 (£5,095)
- Bydd Cadeirydd un o brif bwyllgorau ATA yn derbyn Uwch Gyflog sy'n gyson â chyflog Band 4 (£5,095) (ni fydd hyn yn berthnasol i ATAGC gan mai Cadeirydd yr Awdurdod yw Cadeirydd y Panel Gweithredol hefyd)
- Gallai Cadeirydd un arall o bwyllgorau ATA dderbyn Uwch Gyflog ar raddfa o £3,400 (byddai hyn yn berthnasol i'r Pwyllgor Archwilio fel yr unig Bwyllgor Sefydlog ar wahân i'r Panel Gweithredol).

5 Bydd aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau yn derbyn ffi ddyddiol hyd at uchafswm o 4 diwrnod llawn y flwyddyn ar y gyfradd ganlynol:
- Cadeirydd y Pwyllgor Safonau £256 fel ffi ddyddiol (£128 am ½ diwrnod)
- Aelod Annibynnol £198 fel ffi ddyddiol (£99 am ½ diwrnod).

**Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth**

6 Bydd yr Aelodau'n cofio trafod lwfansau milltiroedd a gofal yn y cyfarfod ym mis Mehefin, ac wedi pleidleisio o blaid cadw'r lwfans milltiroedd ar 40c y filltir, ac i dalu lwfans gofal o hyd at £100 y mis.

7 Mae'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn argymell y gellir hawlio lwfans gofal sydd hyd at £403 y mis, ac y dylai ATAau dalu milltiroedd yn unol â chyfradd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, sef 45c y filltir.

8 Bydd y cyfraddau cynhaliaeth yn aros ar £28 y diwrnod – lwfans dyddiol ar gyfer prydau bwyd, gan gynnwys brecwast lle nad yw hwnnw wedi ei gynnwys yn y pris dros nos.

**Materion Cynhennus**

9 Mae'r cyfyngiad o 3 Lwfans Cyfrifoldeb Arbennig yn rhy anhyblyg.

10 Mae'r cynnig na fydd aelod Gweithredol o awdurdod cyfansoddol bellach yn gymwys i gael lwfans ychwanegol na Lwfans Cyfrifoldeb Arbennig yn afresymol.

11 Mater o ddewis lleol yw p'un ai yw Awdurdodau Tân ac Achub yn dewis dyfarnu Lwfans Cyfrifoldeb Arbennig i'w Ddirprwy Gadeirydd.

## Goblygiadau Ariannol

12 Os bydd penderfyniadau'r Panel yn cael eu gweithredu fel yr amlinellir uchod, bydd angen i'r Awdurdod gynyddu'r gyllideb ar gyfer cyflogau'r aelodau tua £10,500 y flwyddyn.

## Argymhelliad

13 Gofynnir i'r Aelodau:

(a) nodi'r adroddiad, a disgwyl canlyniad ymateb yr ymgynghoriad;
(b) nodi ymateb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, sydd yn Atodiad 4.

# 5. Taliadau i Aelodau Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru

## Cefndir

5.1 Bu fframwaith statudol y tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru yn fodd i fynegeio lwfansau eu haelodau yn ôl y cynnydd cyfartalog a gafwyd yn eu hawdurdodau lleol cyfansoddol. Yn sgîl sefydlu'r Panel yn 2008 roedd hefyd yn ofynnol i awdurdodau tân ac achub ystyried penderfyniadau'r Panel wrth bennu cydnabyddiaeth ariannol aelodau. Pan gyfarfu cynrychiolwyr yr awdurdodau tân ac achub ag aelodau'r Panel yn 2009 fe wnaethant nodi'n glir yr hoffent weld cylch gwaith y Panel yn cael ei estyn i gynnwys cydnabyddiaeth ariannol eu haelodau.

## Y Cyd-destun Presennol

5.2 Ar ôl i gylch gwaith y Panel gael ei estyn o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, gwahoddodd y Panel awdurdodau tân ac achub i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig ar gynlluniau lwfansau presennol eu haelodau ac wedyn ymwelodd â phob awdurdod – awdurdod tân ac achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, awdurdod tân ac achub Gogledd Cymru ac awdurdod tân ac achub De Cymru – yn ystod mis Mawrth a mis Ebrill 2011. Yn ystod yr ymweliadau cyfarfu aelodau'r Panel â chadeirydd yr awdurdod tân ac achub ac fel arfer cadeirydd pwyllgor yn absenoldeb y dirprwy gadeirydd. Cyfarfu'r Panel hefyd ag uwch swyddogion ar wahân..

5.3 Nododd y rhai a gyfwelwyd yn glir yr hoffent gael eu cynnwys yn fframwaith cenedlaethol y Panel ar gyfer 2012/2013. Mae hyn yn gyfle delfrydol i roi cynllun newydd ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol aelodau ar waith am y byddai'n cyd-daro ag ethol cynghorau lleol newydd, y câi 25 o gynghorwyr o'r chwe chyngor cyfansoddol sy'n ffurfio awdurdod tân ac achub Canolbarth a Gogledd Cymru, 28 o gynghorwyr o'r chwe chyngor cyfansoddol sy'n ffurfio awdurdod tân ac achub Gogledd Cymru a 24 o gynghorwyr o'r 10 cyngor cyfansoddol sy'n ffurfio awdurdod tân ac achub De Cymru, eu henwebu ohonynt, fel arfer am gyfnod o bedair blynedd.

5.4 Rhai pwyntiau allweddol o'r ymweliadau hyn sydd wrth wraidd cynigion y Panel ar gyfer taliadau aelodau awdurdodau tân ac achub yn 2012/2013 yw:

- Bod strwythur pwyllgorau bellach i'w gael ym mhob awdurdod tân ac achub yng Nghymru, ond nad yw cadeiryddion pwyllgorau yn cael LCA am mai dim ond ar gyfer cadeirydd ac is-gadeirydd pob awdurdod y mae'r rhain wedi bod ar gael[1]. Mae swyddogaeth pwyllgorau awdurdodau tân ac achub yn amrywio, a phwyllgorau cyllid, archwilio ac adnoddau dynol yw'r rhai mwyaf cyffredin.
- Bod cynnwys aelodau cyffredin yng ngwaith pwyllgorau awdurdodau tân ac achub, gweithgorau a rhaglenni hyfforddi/datblygu cysylltiedig wedi gwella eu dealltwriaeth o swyddogaethau craidd awdurdodau tân ac achub a'i fod hefyd wedi gwella lefelau presenoldeb aelodau cyffredin a chynyddu eu cyfranogiad mewn cyfarfodydd o'r

[1] Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Awdurdodau Tân) (Cymru) 2004.

awdurdod llawn. Mae cyfrifoldeb aelodau awdurdodau tân ac achub yn cyfateb i'w rôl fel aelodau pwyllgorau mewn awdurdodau lleol a cheir rhywfaint o waith cysylltu â'r etholaeth o ran materion sy'n ymwneud ag awdurdodau tân ac achub. Roedd yr ymrwymiad amser yr honnwyd ei fod yn ofyniad sylfaenol ar gyfer aelodau cyffredin awdurdodau tân ac achub yn amrywio rhwng 12 ac 16 o ddiwrnodau'r flwyddyn.

- Ymddengys nad oes unrhyw rôl ag uwch gyfrifoldeb pendant a pharhaus ar gyfer is-gadeiryddion pwyllgorau awdurdodau tân ac achub heblaw am weithredu yn absenoldeb y cadeirydd. Hysbyswyd uwch aelodau awdurdodau tân ac achub a gyfarfu â'r Panel, er nad oes unrhyw ddarpariaeth yn fframwaith y Panel ar gyfer talu cydnabyddiaeth ariannol i is-gadeiryddion pwyllgorau, fod darpariaeth ar gyfer talu cydnabyddiaeth ariannol am rôl dirprwy lle mae tystiolaeth o rôl bendant sy'n cynnwys uwch gyfrifoldeb parhaus – er enghraifft, dirprwy arweinydd neu ddirprwy gadeirydd cyngor.
- Bod dau o gadeiryddion yr awdurdodau tân ac achub hefyd yn ddeiliaid swyddi gweithredol yn eu hawdurdodau cartref.
- Amcangyfrifwyd mai rhwng tri ac wyth diwrnod y mis oedd ymrwymiad amser cadeirydd awdurdod tân ac achub. Cytunodd pawb fod y cyfrifoldeb yn cynnwys elfen gynrychioliadol bwysig sy'n debyg i swyddogaeth gynrychioliadol pennaeth dinesig awdurdod lleol. O ran cyfrifoldeb polisi daeth y Panel i'r casgliad bod rôl arwain cadeirydd awdurdod tân ac achub yn cyfateb orau i gadeirydd Band 3 mewn awdurdod lleol.
- Bod awdurdodau tân ac achub yn gobeithio y byddai'r Panel yn pennu ac yn cyfartalu lefel Cyflogau Sylfaenol ac Uwch Gyflogau awdurdodau tân ac achub[2] ac y byddai cydnabyddiaeth ariannol awdurdodau tân ac achub yn cael ei chysoni â'r hyn a geir mewn awdurdodau lleol. Tynnodd aelodau sylw at yr hyn yr ystyriwyd ei fod yn lefel isel o gydnabyddiaeth ariannol am y swyddogaeth a gyflawnir, sefyllfa a waethygir gan y ffaith nad yw lwfansau awdurdodau tân ac achub wedi newid ers peth amser (heblaw am eu mynegeio) tra'n aros am unrhyw estyniad i gylch gwaith y Panel.
- Y telir lwfansau i aelodau annibynnol pwyllgorau safonol mewn un awdurdod tân ac achub, ond bod costau teithio ar gael ym mhob awdurdod.
- Bod costau teithio a lwfansau ar gael ym mhob awdurdod tân ac achub ond bod uchafsymiau gwahanol.

**Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru: Cyflogau Sylfaenol ac Uwch Gyflogau**

5.5 Ar ôl ystyried y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymweliadau â'r tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru, mae'r Panel wedi penderfynu:

[2] Gan ddefnyddio'r termau 'Cyflog Sylfaenol' ac 'Uwch Gyflog' yn lle 'Lwfans Sylfaenol' a 'Lwfans Cyfrifoldeb Arbennig', sydd wedi'u defnyddio hyd yma mewn awdurdodau tân ac achub yng Nghymru.

- Y dylid cysoni gwerth a chyfrifoldeb aelodau cyffredin awdurdodau tân ac achub yng Nghymru â Chyflog Sylfaenol aelod o awdurdod lleol, ac y dylid ei dalu am ymrwymiad amser o 16 o ddiwrnodau'r flwyddyn.
- Y dylid cysoni amser, gwerth a chyfrifoldeb cadeirydd awdurdod tân ac achub yng Nghymru ag Uwch Gyflog deiliad swydd weithredol Band 3 mewn awdurdod lleol (hynny yw, â'r rhan honno o'r Uwch Gyflog Band 3 nad yw'n cynnwys Cyflog Sylfaenol aelod o awdurdod lleol).
- Y dylid cysoni amser, gwerth a chyfrifoldeb dirprwy gadeirydd awdurdod tân ac achub yng Nghymru lle y ceir uwch gyfrifoldeb pendant a pharhaus ag Uwch Gyflog deiliad swydd weithredol Band 4 mewn awdurdod lleol (hynny yw, â'r rhan honno o'r Uwch gyflog Band 4 nad yw'n cynnwys Cyflog Sylfaenol aelod o awdurdod lleol).
- Y dylid cysoni amser, gwerth a chyfrifoldeb cadeirydd pwyllgor mewn awdurdod tân ac achub yng Nghymru ag Uwch Gyflog deiliad swydd weithredol Band 4 mewn awdurdod lleol (hynny yw, â'r rhan honno o'r Uwch Gyflog Band 4 nad yw'n cynnwys Cyflog Sylfaenol aelod o awdurdod lleol).
- Mae'r Panel yn derbyn bod ymrwymiad rhan-amser tybiedig cynghorydd awdurdod lleol sy'n cael Cyflog Sylfaenol neu Uwch Gyflog Band 3 neu 4 yn rhoi digon o amser i'r cyfryw gynghorydd gyflawni dyletswyddau rhan-amser aelod cyffredin o awdurdod tân ac achub yng Nghymru neu ddeiliad uwch swydd mewn awdurdod tân ac achub yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r Panel o'r farn bod angen i'r aelodau hynny o awdurdodau lleol sydd hefyd yn ddeiliaid swyddi gweithredol mewn cynghorau (ac a ad-delir gan y Panel ar sail amser llawn tybiedig) ystyried yn ofalus a ellir cyflawni ymrwymiad amser ychwanegol aelodau cyffredin neu uwch aelodau o awdurdod tân ac achub yng Nghymru yn briodol. Mae'r Panel wedi dod i'r casgliad na ellir cyflawni'r ymrwymiad amser angenrheidiol hwn yn briodol ac na ddylid rhoi cydnabyddiaeth ariannol ychwanegol am y rôl hon..

5.6 Mae'r Panel wedi penderfynu, ar gyfer 2012/13, y telir y Cyflog Sylfaenol a nodir isod i holl aelodau awdurdodau tân ac achub yng Nghymru ac y telir yr Uwch Gyflogau a nodir isod i hyd at uchafswm o dri aelod o awdurdod tân ac achub yng Nghymru a benodir i swydd Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd a Chadeirydd Pwyllgor:

- Cyflog Sylfaenol awdurdod tân ac achub yng Nghymru o £1,350 sy'n daladwy i holl aelodau cyffredin awdurdodau tân ac achub (16/156 x £13,175).
- Uwch Gyflog awdurdod tân ac achub yng Nghymru o £10,085 sy'n daladwy i Gadeirydd awdurdod tân ac achub yng Nghymru (£1,350 + £8,735).
- Uwch Gyflog awdurdod tân ac achub yng Nghymru o £5,095 sy'n daladwy i Ddirprwy Gadeirydd awdurdod tân ac achub yng Nghymru (£1,350 + £3,745).
- Uwch Gyflog awdurdod tân ac achub yng Nghymru o £5,095 sy'n daladwy i Gadeirydd prif Bwyllgor awdurdod tân ac achub yng Nghymru (£1,350 + £3,745).

- Uwch Gyflog awdurdod tân ac achub yng Nghymru o £3,400 sy'n daladwy i Gadeirydd un o Bwyllgorau eraill awdurdod tân ac achub yng Nghymru (£1,350 + £2,050).

**Cyflogau Sylfaenol ac Uwch Gyflogau Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru: Materion Cysylltiedig**

5.7 Mae'r Panel yn nodi'r canlynol:

- Ni ddylai aelodau gael mwy nag un Cyflog awdurdod tân ac achub.
- Telir Uwch Gyflog awdurdod tân ac achub gan gynnwys Cyflog Sylfaenol yr awdurdod tân ac achub yng Nghymru.
- Ni ddylid rhoi cydnabyddiaeth ariannol ychwanegol i aelod o awdurdod lleol sydd hefyd yn ddeiliad swydd weithredol mewn cyngor am rôl fel aelod cyffredin neu uwch aelod o awdurdod tân ac achub.
- Derbynnir bod llawer o aelodau awdurdodau tân ac achub yn neilltuo mwy o'u hamser i'w dyletswyddau ar gyfer yr awdurdod tân ac achub na'r ymrwymiadau amser a nodwyd uchod. Fel gydag aelodau awdurdodau lleol cydnabyddir yr amser ychwanegol hwn gan y Panel fel gwasanaeth cyhoeddus di-dâl.

**Penderfyniadau'r Panel ynghylch taliadau i Aelodau Cyfetholedig Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru**

5.8 Mae'r Panel yn nodi nad yw cydnabyddiaeth ariannol wedi'i thalu hyd yma i aelodau annibynnol pwyllgorau safonau mewn awdurdodau tân ac achub. Fodd bynnag, mae'r Panel o'r farn bod angen cydnabod gwerth a chyfrifoldeb y cyfryw aelodau cyfetholedig i'r un graddau ag y maent yn cael eu cydnabod ar gyfer eu cymheiriaid mewn awdurdodau lleol. O ganlyniad, mae'r Panel wedi penderfynu cyflwyno ffi ddyddiol ar gyfer aelodau cyfetholedig â hawliau pleidleisio.

5.9 Mae lefel y taliadau i aelodau cyfetholedig awdurdodau lleol yn seiliedig ar gyfrifiad a wnaed gan y Panel o ran ymrwymiad amser, ynghyd ag asesiad o gyfrifoldeb sy'n cyfateb i gyfraddau dyddiol Cadeirydd ac Aelodau Cyrff Band 2 a noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Panel o'r farn bod hon hefyd yn sail briodol ar gyfer talu aelodau cyfetholedig awdurdodau tân ac achub, ond y dylid pennu taliadau i gadeiryddion cyfetholedig ac aelodau cyfetholedig er mwyn cydnabod pwysigrwydd y swyddogaeth. Gall cadeiryddion ac aelodau cyfetholedig ymwrthod â'u hawl i gael eu taliadau, yn rhannol neu'n gyfan gwbl, os dymunant.

5.10 Felly, mae'r Panel wedi penderfynu, ar gyfer 2012/13, y dylai awdurdodau tân ac achub ddarparu'r canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Cadeirydd, Pwyllgor Safonau (ATA) | £256 ffi ddyddiol (£128 am ½ diwrnod) | (tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru) |
| Aelod cyffredin (ATA) | £198 ffi ddyddiol (£99 am ½ diwrnod | (fel uchod) |

Mae'r taliadau hyn yn gyfyngedig i uchafswm o 4 diwrnod llawn y flwyddyn ar gyfer unrhyw aelod cyfetholedig unigol.

## Ad-dalu Costau Gofal, Teithio a Chynhaliaeth

5.11 O ran costau Gofal, Teithio a Chynhaliaeth, mae'r Panel wedi penderfynu y dylai'r ddarpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd o ran ad-dalu costau i awdurdodau lleol hefyd fod ar gael ar gyfer awdurdodau tân ac achub yn 2012/13. Felly mae'r Panel wedi penderfynu:

- Y bydd pob awdurdod tân ac achub yn gwneud darpariaeth ar gyfer ad-dalu costau angenrheidiol i ofalu am blant ac oedolion dibynnol (a ddarperir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol) hyd at uchafswm o £403 y mis, pan y'u hawlir ar sail derbynneb gan yr aelod neu'r aelod cyfetholedig o'r awdurdod tân ac achub fel costau angenrheidiol i gyflawni dyletswyddau awdurdod tân ac achub. Dim ond mewn ymateb i gostau gwirioneddol y cyflwynwyd derbynebau ar eu cyfer y gwneir taliadau.
- Y bydd pob awdurdod Parc Cenedlaethol yn parhau i ad-dalu costau teithio i'w aelodau sydd ar fusnes swyddogol neu'n cyflawni dyletswyddau cymeradwy yn ôl cyfraddau presennol Cyllid a Thollau EM, sef:

  45c y filltir – hyd at 10,000 o filltiroedd.

  25c y filltir – dros 10,000 o filltiroedd.

  5c y teithiwr y filltir – tâl atodol ar gyfer cludo teithwyr.

  24c y filltir – beiciau modur preifat.

  20c y filltir – beiciau.

5.12 Bydd pob cais arall am gostau teithio, megis ar fws ac mewn tacsi, yn parhau i gael ei gyflwyno gyda derbynebau sy'n dangos yr union gost, ac maent yn ddarostyngedig i unrhyw ofyniad neu gyfyngiad pellach y gall awdurdod tân ac achub benderfynu arno. Dylai aelodau ac aelodau cyfetholedig bob amser gofio bod angen dewis y dull mwyaf cost-effeithiol o deithio.

5.13 Y bydd pob awdurdod tân ac achub yn parhau i ad-dalu costau cynhaliaeth i'w aelodau a'i aelodau cyfetholedig yn ôl yr uchafsymiau a nodir isod pan gyflwynir derbynebau gyda cheisiadau:

> £28 y diwrnod – lwfans diwrnod ar gyfer prydau, gan gynnwys brecwast pan nas darparwyd yn y gost dros nos.
>
> £150 - Llundain dros nos.
>
> £120 - Caerdydd dros nos.
>
> £95 - rhywle arall dros nos.
>
> £25 – aros dros nos gyda pherthnasau neu ffrindiau.

(Gall awdurdodau tân ac achub barhau i godi tâl ar aelodau unigol am gynhaliaeth pan ddarperir lluniaeth gan yr awdurdod mewn cyfarfod.)

5.14 Dylai llety dros nos gael ei archebu gan yr awdurdod tân ac achub ei hun a dylai'r awdurdod dalu amdano, lle y bo'n bosibl. Nid oes angen pennu'r gyfradd ddyddiol uchaf (£28 y diwrnod) rhwng prydau gwahanol, gan fod y gyfradd ddyddiol uchaf sy'n ad-daladwy yn cwmpasu cyfnod o 24 awr a gellir ei hawlio ar gyfer unrhyw bryd os yw'n berthnasol, *ar yr amod bod derbynebau yn cael eu cyflwyno gyda'r cyfryw hawliadau.*

**Atodiad 2**

Richard Penn,
Cadeirydd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol,
Ystafell N.07,
Llawr Cyntaf,
Adeiladau'r Goron,
Parc Cathays,
Caerdydd,
CF10 3NQ.

Annwyl Richard,

**Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol –**
**Ymateb i Adroddiad Blynyddol Drafft 2011**

Diolch ichi am y cyfle i roi sylwadau ar argymhellion y Panel ynglŷn â Lwfansau Aelodau.

Yn gyntaf, mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn llwyr gefnogi blaenymateb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fel ein corff cynrychioliadol.

Yn ail, dyma'r materion penodol y mae angen inni dynnu sylw atynt:

- Mae'r Awdurdod yn gwrthwynebu'n gryf y cynnig na fydd Aelod Gweithredol o awdurdod cyfansoddol bellach yn gymwys i dderbyn lwfans ychwanegol na Lwfans Cyfrifoldeb Arbennig gyda'r Awdurdod Tân ac Achub. Mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn endid cyfreithiol ac yn wasanaeth ar wahân, a dylai hynny gael ei gydnabod a rhoi statws iddo; dylid cefnogi hyn trwy gydnabyddiaeth ariannol ar ffurf lwfansau, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Bydd y Panel yn anfwriadol yn tanseilio statws yr Awdurdod a phwysigrwydd y gwasanaeth os bydd y cynnig hwn yn mynd yn ei flaen;
- O fewn y cynigion hynny, dylai fod yn fater o ddewis lleol p'un ai y bydd Awdurdodau Tân ac Achub yn dewis dyfarnu Lwfans Cyfrifoldeb Arbennig i'w Dirprwy Gadeirydd; ac
- Mae'r cyfyngiad o 3 Lwfans Cyfrifoldeb Arbennig yn rhy anhyblyg. Petai'r Awdurdod yn gweithredu Pwyllgor Archwilio a Phwyllgor Craffu (nid ydym – mae'r ddau wedi eu cyfuno), yna mae cyfyngiad o 3 yn rhy isel.

Rydym yn argymell yn gryf y dylid edrych eto ar y cynigion, yn seiliedig ar y sylw uchod.

Byddem yn gwerthfawrogi ateb llawn i'r sylwadau hyn unwaith y bydd y Panel wedi mynd drwy'r ymatebion niferus y bydd wedi eu derbyn, ac wedi rhoi trefn derfynol ar ei gynigion.

Yn gywir

Colin Everett
Clerc Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Atodiad 3

**Trosolwg o Argymhellion y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol**

## 1. Lwfansau Aelodau Awdurdodau Tân

| Rôl | Lwfans Presennol ATAGC | Lwfans a Gynigir gan y Panel | Amrywiad |
|---|---|---|---|
| **Aelod Cyffredin** | £1,142.76 | £1,350 | Cynnydd o £207.24 |
| **Cadeirydd yr Awdurdod Tân** | £9,743.64 | £10,085 (Band 3) | Cynnydd o £341.36 |
| | | | |
| **Is-/Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod Tân** | £7,488.60 | £5,095 | Gostyngiad £2,393.60 |
| **Cadeirydd Prif Bwyllgor** | Dim lwfans penodol yn daladwy am fod yn gadeirydd pwyllgor. Derbyn lwfans aelod sylfaenol yn unig, sef £1,142.76 | £5,095 | Cynnydd £3,952.24 |
| **Cadeirydd pwyllgor arall** | Dim lwfans penodol yn daladwy am fod yn gadeirydd. Derbyn lwfans aelod sylfaenol yn unig, sef £1,142.76 | £3,400 | Cynnydd £2,257.24 |

<u>**DS**</u>

- Ni all aelodau dderbyn mwy nag un cyflog
- Mae cyflog sylfaenol ATA yn gynwysedig o fewn uwch gyflog ATA
- Ni all aelod o awdurdod lleol sydd hefyd yn ddeiliad swydd weithredol ar y cyngor gael cydnabyddiaeth ariannol ychwanegol fel aelod cyffredin neu uwch o ATA. Byddai hyn yn golygu na fyddai Aelodau mwyach yn derbyn unrhyw gyflog o gwbl am gyflawni eu dyletswyddau cyhoeddus yn yr ATA.
- Dim ond 3 ‘uwch’ gyflog sy’n daladwy, e.e. Cadeirydd, Is-gadeirydd a Chadeirydd Prif Bwyllgor; neu Gadeirydd, Cadeirydd Prif Bwyllgor neu Gadeirydd Pwyllgor arall

**2. Pwyllgor Safonau**

| Rôl | Lwfans Presennol ATAGC | Lwfans a Gynigir gan y Panel | Amrywiad |
|---|---|---|---|
| **Cadeirydd Pwyllgor Safonau** | £362.50 y flwyddyn | £256 ffi ddyddiol (£128 am hanner diwrnod) | Yn seiliedig ar gyfartaledd* o 2 x cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau y flwyddyn, byddai hyn yn gynnydd o £149.50 |
| **Aelod Cyffredin/Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau** | £190 y flwyddyn | £198 ffi ddyddiol (£99 am hanner diwrnod) | Yn seiliedig ar gyfartaledd* o 2 x cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau bob blwyddyn, byddai hyn yn gynnydd o £206 |
| **DS – Caiff y taliadau hyn eu capio ar uchafswm o 4 diwrnod llawn y flwyddyn ar gyfer aelod unigol cyfetholedig**<br>*** Presenoldeb ar gyfartaledd – cyfrifwyd yn seiliedig ar 2 x cyfarfod hanner diwrnod o'r Pwyllgor Safonau, a diwrnod llawn i adlewyrchu hyfforddiant/ mynychu cynadleddau = cyfartaledd o 2 ddiwrnod llawn** | | | |

**3. Ad-dalu Treuliau Gofal, Teithio a Chynhaliaeth**

**3.1 Lwfansau Gofal**

| Rôl | Lwfans Presennol ATAGC | Lwfans a Gynigir gan y Panel | Amrywiad |
|---|---|---|---|
| **Aelod Cyffredin** | £100 y mis (uchafswm) | Uchafswm o £403 y mis | Cynnydd o £303 |
| **Cadeirydd yr Awdurdod Tân** | £100 y mis (uchafswm) | Uchafswm o £403 y mis | Cynnydd o £303 |
| **Is-/Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod Tân** | £100 y mis (uchafswm) | Uchafswm o £403 y mis | Cynnydd o £303 |
| **Aelod Cyffredin/Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau** | £100 y mis (uchafswm) | Uchafswm o £403 y mis | Cynnydd o £303 |

**4. Lwfans Teithio**

| ATAGC | Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth | Amrywiad |
|---|---|---|
| **Car**<br><br>Lwfans Milltiroedd 40c y filltir (fel y cytunwyd yng Nghyfarfod Blynyddol yr ATA, Mehefin 2011) | **Car**<br><br>Cyfraddau cyfredol Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi:<br><br>45c y filltir – hyd at 10,000 o filltiroedd<br><br>25c y filltir – hyd at 10,000 o filltiroedd<br><br>5c y filltir am bob teithiwr – atodiad teithiwr<br><br>24c y filltir – beiciau modur preifat<br><br>20c y filltir – beiciau | Gostyngiad o 20c y filltir dros 10,000 o filltiroedd |

**5. Lwfans Cynhaliaeth**

| ATAGC | Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth | Amrywiad |
|---|---|---|
| **Cynhaliaeth**<br><br>Lwfans Dydd:<br><br>£28 dros gyfnod o 24 awr (gyda chyfyngiadau amser)<br><br>Lwfans Dros Nos:<br><br>£150 – Dros nos yn Llundain<br><br>£120 – Dros nos yng Nghaerdydd<br><br>£95 – pob lleoliad arall | **Cynhaliaeth**<br><br>Lwfans Dydd:<br><br>£28 y dydd<br><br>Lwfans Dros Nos:<br><br>£150 – Dros nos yn Llundain<br><br>£120 - Dros nos yng Nghaerdydd<br><br>£95 - pob lleoliad arall<br><br>£25 – arhosiad dros nos gyda theulu a chyfeillion | Dim, ac eithrio £25 yn benodol am aros dros nos gyda theulu a chyfeillion |

Sylwer – Gall ATAau barhau i godi tâl ar aelodau unigol a chyfetholedig am gynhaliaeth lle bo lluniaeth yn cael ei ddarparu gan yr awdurdod mewn cyfarfodydd

Sylwer – lle bo’n bosib, yr ATA ei hun ddylai drefnu a thalu am lety dros nos.

**Date/Dyddiad:** 3rd Hydref 2011
**Please ask for/Gofynnwch am:** Steve Thomas
**Direct line/Llinell uniongyrchol:** 02920 468610
**Email/Ebost:** steve.thomas@wlga.gov.uk

WLGA • CLlLC

Richard Penn,
Cadeirydd, Panel Cydnabyddiaeth Annibynnol i Gymru
Ystafell N.07,
Llawr Cyntaf
First Floor,
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays,
Caerdydd
CF10 3NQ.

Annwyl Richard,

## Ymateb CLlLC: Adroddiad Blynyddol Drafft Rhagfyr 2011

Diolch unwaith eto am gyfarfod gyda Phwyllgor Cydlynu CLlLC ddydd Gwener diwethaf i drafod eich Adroddiad Blynyddol. Cafodd arweinwyr sicrwydd eich bod chi'n ymgysylltu ac yn edrych ar safbwyntiau ac eich bod chi a'r Panel yn ail ystyried y cynigion ar Gyflogau Uwch eisoes.

Fodd bynnag, mae'n glir fod arweinwyr ac awdurdodau yn parhau i rannu pryderon arwyddocaol am nifer o'ch cynigion drafft ac mae ymateb CLlLC i'ch ymgynghoriad ynghlwm. Oherwydd y pryderon hyn, cytunodd arweinwyr y dylai CLlLC ysgrifennu i'r Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau yn gofyn iddo gyfeirio'r Panel (yn unol ag Adran 149 y Mesur) i ailystyried ei gynigion.

Hoffwn hefyd wneud sylw ar ddau fater ychwanegol godwyd gennych chi yng nghyfarfod ddydd Gwener: effaith Mesur Llywodraeth Leol 2011; a'ch anogaeth fod awdurdodau yn 'cefnogi eu honiadau gyda thystiolaeth'.

Cafodd Mesur 2011 ei grybwyll yn aml yn ystod y trafodaethau. Er yr adlewyrchir yn eich Adroddiad Drafft gyda chynhwysiad Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratig newydd a newidiadau i gylch gwaith a rôl aelodau, fe wnaethoch chi awgrymu ei bod hi'n rhy hwyr i ystyried ei effaith ar rolau a chyfrifoldebau'r aelodau, sef rhywbeth fyddech chi'n ei ystyried yn Adroddiad Blynyddol flwyddyn nesaf. Rwy'n anghytuno; dylid delio gyda'r materion yma yn yr Adroddiad Blynyddol yma fel mater o arfer ac egwyddor. Mae pwerau a dyletswyddau newydd Aelodau wedi eu hamlinellu'n glir yn y Mesur, mae'r rhain yn cynnwys cydweithio (yn nhermau swyddogaethau gweithredol a chraffu), y ddirprwyaeth (potensial) o swyddogaethau gweithredol i aelodau a'r cyfrifoldebau newydd arwyddocaol gyda'r ddyletswydd newydd arwyddocaol i graffu gwasanaethau cyhoeddus.

Steve Thomas CBE
Chief Executive
Prif Weithredwr

Welsh Local Government Association
Local Government House
Drake Walk
CARDIFF CF10 4LG
Tel: 029 2046 8600
Fax: 029 2046 8601

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Tŷ Llywodraeth Leol
Rhodfa Drake
CAERDYDD CF10 4LG
Ffôn: 029 2046 8600
Ffacs: 029 2046 8601

www.wlga.gov.uk

**The WLGA welcomes correspondence in Welsh or English - Mae WLGA yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg**
**Printed on recycled paper - Wedi'i argraffu ar bapur eildro**

Bydd y pwerau a'r dyletswyddau newydd yna'n dod i rym o fis Ebrill nesaf ymlaen, sy'n cyd-daro gyda gweithrediad eich fframwaith lwfansau arfaethedig newydd. Felly, mae'n dilyn y dylai aelodau dderbyn cydnabyddiaeth yn unol â hynny o'r dyddiad ar gyfer unrhyw gyfrifoldebau newydd disgwylir iddynt gymryd – ni fyddai blwyddyn o oediad yn deg nag yn angenrheidiol.

O ran eich pwynt, sy'n cael ei ailadrodd, y dylai ymatebion yr awdurdodau i'r ymgynghoriad gael eu cefnogi gan dystiolaeth, byddem ni'n dadlau bod y baich o brawf yn gorwedd gyda'r Panel ei hunan. Bydd yr Awdurdodau yn darparu tystiolaeth wrth gwrs (oedd ar gael i'r Panel yn flaenorol) ar y cynnig i gapio cyflogau uwch. Fodd bynnag, cyfrifoldeb y Panel yw darparu tystiolaeth i gefnog ei gynigion ei hunan, yn enwedig lle maent yn gwyro o gynseiliau sefydledig y Panel ei hunan ac o ystyried y byddant yn gwneud newidiadau arwyddocaol a phellgyrhaeddol i drefniadau democratig a llywodraethu lleol. Rydym ni wedi nodi yn ein hymateb ymgynghori fod sail tystiolaeth y Panel ei hun yn ymddangos yn gyfyngedig ac yn aneglur. Mae pryder ehangach hefyd ynghylch pa mor gyson mae'r Panel wedi cymhwyso ei fethodoleg ei hunan a fframwaith egwyddorion.

Mae CLlLC yn barod i gwrdd gyda'r Panel eto i drafod y cynigion drafft cyn cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych chi.

Yn gywir,

**Steve Thomas CBE**
Prif Weithredwr

cc
Arweinwyr a Phrif Weithredwyr, cynghorai sir a bwrdeistrefol Cymreig
Cadeiryddion a Prif Swyddogion Tân, Awdurdodau Tân ac Achub Cymreig
Cadeiryddion a Phrif Weithredwyr, Awdurdodau Parc Cenedlaethol Cymreig

**Ymateb CLlLC**
**3ydd Hydref 2011**

# Adroddiad Blynyddol Drafft ar Gydnabyddiaeth Ariannol Annibynnol
# Rhagfyr 2011

## Gwybodaeth

1. Mae CLlLC yn cynrychioli'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru ac mae'r Awdurdodau Tân ac Achub, Awdurdodau'r Heddlu ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn aelodau cysylltiedig.

2. Mae CLlLC wedi cael perthynas adeiladol gyda'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol ers ei sefydliad.

3. Mae CLlLC yn cydnabod y lefel o ymgysylltu a deialog gyda chynghorwyr ac awdurdodau, ar sail unigol ac ar y cyd, yn ystod y blynyddoedd diwethaf a'r cyfraniad mae'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel) wedi gwneud wrth gydnabod a gwerthfawrogi rôl y cynghorydd modern sy'n gynyddol gymhleth a heriol.

4. Mae Adroddiad Blynyddol drafft y 'Panel' yn seiliedig mewn rhannau ar ei adroddiad Symud Ymlaen yn 2010, oedd yn rhagweld ei bwerau newydd trwy Fesur 2011 ac yn adeiladu ar ymgynghoriad a deialog helaeth gydag awdurdodau.

5. Fodd bynnag, mae gan CLlLC bryderon ac amheuon cryf am nifer o gynigion allweddol y 'Panel', yn enwedig ar yr effaith botensial ar werth canfyddedig cynghorwyr a'r goblygiadau difrifol ar drefniadau llywodraethu'r cynghorau. Mae hefyd yn codi nifer o gwestiynau am ymagwedd a chysondeb methodoleg y 'Panel' wrth bennu cydnabyddiaeth i gynghorwyr yn yr Adroddiad drafft ac mewn blynyddoedd i ddod.

## Rhagnodi Cyflog

6. Mae CLlLC yn cydnabod fod amrywiaeth o safbwyntiau ar fabwysiadu'r term 'cyflog' (yn lle 'lwfans'), fodd bynnag, derbynnir yn gyffredinol fod y cyhoedd yn deall y term hwn, ac yn adlewyrchu hawl cynghorydd i gydnabyddiaeth ariannol yn unol gyda'r derminoleg sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer taliadau a wneir i AC ac AS. Mae nifer o aelodau ac awdurdodau wedi codi pryderon ehangach am y goblygiadau cyfreithiol a statws cyflogaeth y fath derm, ac fe ddylai'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol edrych i'w egluro yn ei Adroddiad terfynol.

7. Mae CLlLC wedi cymeradwyo bwriad y Panel i ragnodi cyflogau yn hytrach na gosod lefelau uchafswm cyflog. Fodd bynnag, mae CLlLC yn bryderus am yr amseru a'r ymagwedd at y dull rhagnodi, yn enwedig cyn etholiadau 2012 ac yn ystod cyfnod o ohirio unrhyw godiad cyflog yn y sector cyhoeddus. Dywedodd CLlLC wrth y 'Panel' mai'r dull gorau oedd i'r Panel ohirio unrhyw ragnodi oedd yn cynnwys unrhyw godiad mewn cyflogau hyd at adeg pan oedd y cyfyngiad ar godiadau cyflog i lywodraeth leol ehangach wedi cael ei godi.

8. Mae CLlLC yn cydnabod fod cylch gwaith y 'Panel' yn un heriol, yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd bresennol, cyfnod o atal codi cyflogau yn y sector gyhoeddus a'r lefelau amrywiol o lwfansau i aelodau sy'n cael eu talu ar draws awdurdodau lleol Cymreig.

9. Fodd bynnag, mae penderfyniad y 'Panel' i ragnodi cyflogau sylfaenol a chyflogau uwch ar lefel newydd ar gyfer 2012-13 yn achosi nifer o heriau ac anghysondebau arwyddocaol allai fod wedi cael eu hosgoi pe byddai'r 'Panel' wedi mabwysiadu'r ymagwedd oedd CLlLC yn ei ffafrio.

10. Yn ariannol, mae nifer o 'enillwyr a chollwyr', yn nhermau effaith ar aelodau unigol ac effaith ar awdurdodau. Mae'r 'Panel' ei hunan yn cydnabod y mater hwn yn yr adroddiad drafft, fodd bynnag, mae CLlLC yn credu fod gan y cynigion y potensial i fod yn ymrannol ac yn cydnabod y gallai aelodau ac awdurdodau gael safbwyntiau gwahanol yn ddibynnol ar effeithiau ariannol personol neu leol.

11. Mae'r adroddiad yn gostwng lefelau cyflog cynghorwyr mewn 10 o gynghorau (554 o aelodau). Yn y cyfnod sy'n arwain at etholiadau mis Mai nesaf, gallai hyn gael effaith ar gadw cynghorwyr sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd ac ar recriwtio cynghorwyr newydd o bosib; mae cyflog llawer o gynghorwyr wedi cael ei rewi dros y 2 flynedd diwethaf a bydd rhai (y rhai sy'n cael eu hailethol) yn derbyn toriad cyflog arwyddocaol o'r flwyddyn nesaf. Felly, mae penderfyniad i'w weld yn gwrth-ddweud agenda Llywodraeth y Cynulliad am hyrwyddo democratiaeth a chyfranogaeth leol ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 diweddar.

12. Ar y llaw arall, bydd cyflogau cynghorwyr mewn rhai awdurdodau yn cynyddu. Er bydd cynghorwyr sy'n cael eu hethol yn etholiad mis Mai nesaf yn elwa yn ariannol, mae'n anochel y bydd diddordeb gan y cyhoedd, y wasg a diddordeb gwleidyddol yn ystod yr ymgyrch etholiadol am y cynnydd yn lwfansau aelodau yn ystod cyfnod o atal codi cyflogau'r sector cyhoeddus, fydd yn gwrthdynnu o'r polisi lleol allweddol neu bryderon neu flaenoriaethau gwasanaeth.

13. Mae penderfyniad y 'Panel' i osod Cyflogau Sylfaenol ar lefel isel newydd yn codi nifer o gwestiynau am fethodoleg a chyfeiriad wrth osod cyflogau cynghorwyr yn y dyfodol.

14. Tra bod penderfyniad y 'Panel' i ostwng cyflogau sylfaenol wedi cael ei wneud yng nghyd-destun yr hinsawdd economaidd bresennol a chyda nod o liniaru cynyddiadau ariannol lleol a lleihau'r goblygiadau ariannol cenedlaethol, mae'r penderfyniad i ostwng lwfansau sylfaenol yn enwedig, nid yn unig i'r gwrthwyneb o resymwaith blaenorol y 'Panel' ond wedi cael ei wneud mewn cyfnod lle mae cyfrifoldebau'r cynghorydd yn cynyddu.

15. Mae'r 'Panel' wedi cydnabod yn flaenorol rôl gynyddol gymhleth a heriol y cynghorydd modern, fodd bynnag, wrth osod lwfansau sylfaenol ar gyfer 2012-13, nid yw'n ymddangos fod y 'Panel' wedi ystyried y newid yn rôl a chyfrifoldebau'r cynghorwyr yn dilyn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

16. Bydd gan bwyllgorau trosolwg a chraffu'r Cyngor ddyletswydd i archwilio 'personau dynodedig' sy'n cael ei ddehongli i olygu pob (neu'r rhan fwyaf) o gyflwynwyr gwasanaeth cyhoeddus. Bydd gan y Pwyllgorau'r pwerau i orfodi presenoldeb neu

wybodaeth gan y fath bersonau dynodedig hefyd. Felly, mae hyn yn cynyddu rôl a chyfrifoldebau cynghorwyr wrth ymarfer eu rolau arweinyddiaeth gymunedol a chraffu.

17. Yn yr un modd, mae Adran 56 o'r Mesur yn caniatáu cynghorau i ddirprwyo swyddogaethau gweithredol i unrhyw aelodau, naill ai mewn perthynas ag aelodaeth swyddogol aelod o gorff neu bartneriaeth allanol. Tra bod y pŵer yma heb ddechrau eto, a bydd rhaid i gynghorau unigol benderfynu p'un ai i fabwysiadu trefniadau o'r fath, efallai bydd rhaid i'r 'Panel' ystyried goblygiadau penderfyniadau lleol o'r fath ar naill ai Gyflogau Sylfaenol neu'r nifer o Gyflogau Uwch sy'n daladwy ym mhob awdurdod.

18. Rhesymeg a chymharydd hir sefydlog y 'Panel' am gyfrifo lwfansau oedd y dylai cynghorwyr dderbyn 3/5 o'r cyflog gros canolrif Cymreig. Mae'r 'Panel' ei hunan yn pwysleisio ei fod yn amhariad i symud ymhellach i ffwrdd o'r cymharydd yma, oherwydd ei fod wedi rhewi lwfansau yn y blynyddoedd diwethaf (tra bod cyflogau canolrif wedi cynyddu) ac o ystyried nad yw pob cyngor wedi talu'r gyfradd uchaf a ganiateir. Mae ymadawiad pellach y 'Panel' o'r cymharydd hwn, yn enwedig o ystyried fod y ffigwr yma'n aros ar y cyflog canolrif Cymraeg 2009-10, yn golygu fod llai o eglurder o gwmpas y gwerth a roir ar rôl y cynghorydd modern a hefyd beth fydd y cymharydd a'r mecanwaith ar gyfer y dyfodol.

19. Fel y mae ar hyn o bryd, bydd cyflogau 2012-13 yn seiliedig ar y fformiwla: 3/5 o'r cyflog gros canolrif Cymreig, minws 5%. Nid yw'r glir sut fydd y 'Panel' yn symud ymlaen yn y dyfodol, yn enwedig pe byddai'r cyfyngiad ar godiad cyflogau'r cyhoedd ehangach yn cael ei godi. A fydd y 'Panel' yn sefydlu cymharydd newydd neu'n edrych i leihau'r bwlch gyda'r cyflog gros canolrif Cymreig trwy naill ai ddychwelyd at ffigyrau cyfoes, neu trwy adfer y gostyngiad 5%?

20. Mae'r cysylltiad gyda'r cyflog gros canolrif Cymraeg wedi cael ei ymestyn gymaint fel nad yw'n gymharydd realistig bellach ac mae'n ymddangos nad yw'n ffactor allweddol bellach wrth lunio penderfyniadau'r 'Panel'.

21. Mae ymadawiad y 'Panel' o'i fethodoleg a rhesymeg flaenorol a'r gostyngiadau cyffredinol i Gyflogau Sylfaenol a Chyflogau Uwch (a'r arbedion cenedlaethol canlyniadol o oddeutu £1m) yn awgrymu mai ei amcan canolog oedd lleihau costau cyffredinol o gydnabyddiaeth ariannol yn genedlaethol, yn hytrach na gosod cynllun o gyflogau sy'n rhoi cydnabyddiaeth ddigonol ac yn ad-dalu cynghorwyr.

22. O ystyried fod methodoleg a rhesymeg y 'Panel' yn aneglur, mae Adroddiad Blynyddol drafft y 'Panel' a'r penderfyniadau'n ymddangos i fod yn groes i fframwaith y 'Panel' ei hunan ar Egwyddorion Cydnabyddiaeth Ariannol, yn arbennig symlrwydd, cydnabyddiaeth ariannol a thegwch:

    *"Symlrwydd*
    *2.2 Mae'r Fframwaith yn glir ac yn hawdd i'w deall. Mae hyn yn hanfodol i'r Panel gyfathrebu ei flaenoriaethau yn effeithiol i bawb sy'n cael eu heffeithio, neu â diddordeb, yn ei waith.*

*Cydnabyddiaeth Ariannol*
*2.3 Mae'r Fframwaith yn rhoi taliad i aelodau o awdurdodau cyhoeddus sy'n dal cyfrifoldeb am wasanaethu eu cymunedau arbennig. Ni ddylai'r lefel o gydnabyddiaeth ariannol fod yn rhwystr i gymryd neu barhau yn y swydd. Mae'r Fframwaith yn darparu ad-daliad ychwanegol i'r rhai sydd â lefel uwch o gyfrifoldebau.*

*Tegwch*
*2.6 Fel prawf hanfodol o degwch y Fframwaith, mae'r Panel yn sicrhau fod ei benderfyniadau ar gydnabyddiaeth ariannol i aelodau'n ystyried enillion blynyddol yr etholaeth Gymreig. Bydd y Fframwaith yn gallu cael ei gymhwyso'n gyson i aelodau o bobl awdurdod cyhoeddus fel modd o sicrhau fel lefelau cydnabyddiaeth yn deg, yn fforddiadwy ac yn dderbynion yn gyffredinol."*

**Cyflogau Uwch**

23. Mae gan CLlLC bryderon arwyddocaol gyda'r cynigion yn yr Adroddiad Blynyddol drafft am gapio cyflogau uwch. Tra bod cynghorau yn cymhwyso'r cysyniad o 'reoli mwy gyda llai' ym mhopeth a wnânt (gan gynnwys dyrannu lwfansau cyfrifoldebau uwch) eisoes, mae'r modd y mae'r 'Panel' wedi cymhwyso'r cysyniad hwn i benderfyniadau Cyflogau Uwch mewn modd mympwyol yn broblematig ar sail cyfreithlondeb, egwyddor ac ymarferoldeb.

24. Mae'r 'Panel' wedi gosod Bandiau Cyflog Uwch mympwyol yn seiliedig ar faint y cyngor; nid oes rhesymeg eglurhaol ar sut mae'r 'Panel' wedi penderfynu ar y ffigyrau hynny, ar wahân i geisio cymhwyso'r cysyniad 'rheoli mwy gyda llai' ac, mae'n ymddangos, i ostwng yr effaith ariannol gyffredinol ar ragnodi i'r awdurdodau hynny sy'n talu oddi tan y lefelau lwfans mwyaf ar hyn o bryd.

25. Hyd yma, mae'r hyblygrwydd mewn deddfwriaeth o ganiatáu 'dim mwy na 50% o aelodau'r cyngor' i dderbyn cyfrifoldebau uwch wedi gweithio'n dda. Mewn realiti, nid yw'r rhan fwyaf o gynghorau'n talu'n agos ar y lefelau hyn o ystyried fod y 'Panel' wedi cyfyngu a nodi'r mathau o rolau uwch y cyngor sy'n gymwys am lwfans cyfrifoldeb arbennig. Fodd bynnag, mae'r ratio rhagnodi wedi caniatáu lefel arwyddocaol o hyblygrwydd lleol wrth bennu trefniadau llywodraethu lleol addas.

26. Er bod y 'Panel' wedi cael gwared â'r cyswllt penodol rhwng cydnabyddiaeth ariannol cynghorydd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, mae'n anghysondeb arwyddocaol fod cynigion y 'Panel' i gapio Cyflogau Uwch i rhwng 23-45% o aelodau ym mhob cyngor o gymharu gyda 53% o aelodau cyfredol y Cynulliad Cenedlaethol sydd â hawl i gyflog uwch.

27. Nid yw CLlLC yn credu fod gan y 'Panel' y grym i osod ffigyrau penodol ar gyfer cyflogau uwch; o dan y ddeddfwriaeth, mae ganddo'r pŵer i bennu 'cyfrannau penodedig' o aelodaeth y cyngor fyddai â hawl i gyflog uwch.

28. Mae Adran 142 (4) o'r Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn nodi "...gall y Panel bennu'r taliadau o ran mater penodol neu ni fydd materion yn cael eu talu mwy na chyfran benodol o Aelodau o Awdurdod " ac mae Adran 142(5) yn nodi fod y gyfran yma "…ddim yn fwy na pum deg y cant oni bai fod caniatâd y Gweinidogion Cymreig wedi ei gael". Yna mae Adran 142(9) yn rhoi peth hyblygrwydd i'r 'Panel': "Gall y Panel...wneud penderfyniadau gwahanol o dan isadran (4)....mewn perthynas ag

awdurdodau o wahanol ddisgrifiadau neu awdurdodau gwahanol o'r un disgrifiad.", mae hyn yn caniatáu'r 'Panel' i ddyrannu gwahanol gyfrannau gwahanol rhwng awdurdodau gwahanol, nid i newid rhifau penodol am gyfrannau fel mae wedi gwneud yn ei Adroddiad Blynyddol drafft.

29. Wrth bennu bandiau Cyflogau Uwch cul, mae CLlLC yn credu fod y 'Panel' wedi mynd tu hwnt i'w gylch gwaith statudol drwy geisio pennu neu o leiaf orfodi trefniadau llywodraethu lleol. Mae awdurdodau lleol wedi eu rhoi mewn sefyllfa i benderfynu ar y trefniadau llywodraethau mwyaf addas sydd eu hangen i wneud busnes yn effeithiol, mae hyn yn cynnwys y strwythurau cyfansoddol yn ogystal ag arfer swyddogaethau gweithredol, craffu a statudol yn unol â hynny.

30. Mae'r agwedd fympwyol 'tri maint yn addas i bawb' i'r gwrthwyneb o bolisi a deddfwriaeth Llywodraeth y Cynulliad ac yn tanseilio penderfyniadau'r 'Panel' ei hunan hefyd:

- Mae Adroddiad Drafft y 'Panel' ei hunan yn cyflwyno tair swydd newydd sy'n gymwys, sy'n cynnwys Maer, Dirprwy Faer a Chadeirydd Pwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd ac mae wedi cytuno'n flaenorol ar swyddi lleol eraill sy'n gymwys fel cadeiryddion paneli apêl.
- Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn nodi fod awdurdodau yn gallu cael cabinet o hyd at 10 aelod, tra'n ymarferol fod gan rai awdurdodau llai o aelodau cabinet, mae'n benderfyniad i'r awdurdodau lleol yn seiliedig ar amgylchiadau lleol i bennu'r nifer briodol o aelodau o'r cabinet i ymarfer swyddogaethau gweithredol yn unol â hynny.
- Mae nifer o swyddi uwch sy'n hanfodol i gynnal busnes statudol hefyd, fel cadeiryddion pwyllgorau archwilio, trwyddedu a chynllunio.
- Mewn gwirionedd, felly, bydd y rolau uwch na fydd yn cael eu hystyried am gydnabyddiaeth ariannol, neu o leiaf yn cael eu lleihau o ran nifer, o ganlyniad i'r cap cyflogau uwch y rhai mae polisi a deddfwriaeth Llywodraeth y Cynulliad wedi edrych i gryfhau, cadeiryddion gorolwg a chraffu a Gwasanaethau Democrataidd yn arbennig.

31. Wrth dystiolaethu penderfyniad y 'Panel' i gynnig cap ar gyflogau uwch, mae Cadeirydd y 'Panel' yn nodi (mewn gohebiaeth gyda'r Prif Weithredwr CLlLC) bod 'amrywiaethau arwyddocaol yn rhifau cyfredol aelodau'r cabinet....a chadeiryddion swyddogaethol ac arweinwyr gwrthbleidiau". Byddai CLlLC yn dadlau ei bod hi'n gwbl addas bod amrywiaeth, gan fod trefniadau deddfwriaethol presennol yn caniatáu disgresiwn a hyblygrwydd lleol i awdurdodau reoli eu trefniadau llywodraethu eu hunain, sy'n cynnwys ystyriaethau ariannol 'rheoli gyda llai' yn ogystal â threfniadau llywodraethu angenrheidiol ac adlewyrchu arbenigrwydd, profiad, ymrwymiadau ehangach neu faterion capasiti aelodau unigol.

32. Yn yr un modd, mae cadeirydd y 'Panel' yn nodi enghreifftiau o'r awdurdodau a'u cyflogau uwch presennol sy'n agos neu'n is na'r capiau cyflogau uwch arfaethedig. Mae dau fater allweddol sy'n gosod her i'r dybiaeth hon ar draws pob awdurdod:
- Mae adroddiad y 'Panel' ei hunan yn cyflwyno 3 swydd uwch ychwanegol sy'n gymwys na gafodd eu cynnwys yng nghyfrifiadau Cadeirydd y 'Panel';
- Nid yw effeithiau etholiadau mis Mai nesaf wedi cael eu hystyried. Efallai bydd gweinyddiaethau ac awdurdodau gwahanol yn dymuno adolygu trefniadau cyfansoddiadol a llywodraethu presennol, gan gynnwys maint adrannau

gweithredol a’r nifer a’r amrediad o bwyllgorau. Efallai bydd niferoedd ychwanegol o Arweinwyr Grŵp sy’n gymwys (rhai gyda 10% o aelodaeth cyngor). Ar bwynt cysylltiedig, efallai bydd newidiadau gwleidyddol trwy gydol y flwyddyn ddinesig allai weld ffurfio grwpiau gwleidyddol newydd ac felly Arweinwyr Grŵp ychwanegol sy’n gymwys.

33. Yn seiliedig ar drefniadau llywodraethu cyfredol a safleoedd cymhwyso o’r adroddiad drafft hwn ac Adroddiadau Drafft blaenorol y ‘Panel’, gallai awdurdod ddyrannu hyd at 25 o gyflogau uwch o 2012-13:

- 1 x Arweinydd
- Hyd at 9 x Aelod pellach o’r Cabinet (gan gynnwys y Dirprwy Arweinydd)
- 1 x Cadeirydd y Cyngor/Maer
- 1 x Is-gadeirydd y Cyngor/Dirprwy Faer
- 1 x Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio
- 1 x Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu
- 1 x Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio
- 1 x Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau
- c5 x Cadeirydd y Pwyllgorau Gorolwg a Chraffu (gallai cynghorau sefydlu mwy os yw hyn yn cael ei ystyried yn briodol yn lleol)
- 1 x Arweinydd Grŵp (Gwrthblaid fwyaf)
- c2-3 x Arweinydd Grŵp (Grwpiau eraill, dim llai na 10% o bob aelod o’r cyngor)
- Rolau eraill gymeradwywyd yn flaenorol gan y ‘Panel’ sy’n gofyn am Gyflog Uwch e.e. Cadeiryddion Pwyllgorau Pensiwn neu Banelau Apêl

34. Er bod y Panel yn nodi y gallai’r Cap Cyflog arfaethedig gael ei atal dros dro er mwyn caniatáu talu cyflogau uwch ychwanegol fel rhan o’r dyletswyddau newydd o gwmpas ‘absenoldeb teulu’, mae’r Cap Cyflog fel mae wedi cael ei amlinellu ar hyn o bryd yn ymddangos ei fod yn atal polisïau eraill sy’n ‘gyfeillgar i deuluoedd’ fel rhannu swyddi.

35. Mae cynnig y ‘Panel’ i gapio cyflogau uwch yn ymddangos yn anghyson hefyd, o fewn cyd-destun yr adroddiad drafft, ond hefyd gydag egwyddorion y ‘Panel’ ac arferion blaenorol i gydnabod ac ad-dalu cyfrifoldebau ychwanegol, sy’n fwy pryderus.

36. Wrth ragnodi cyflogau a chyflogau uwch, mae’r ‘Panel’ wedi edrych i ddod â lefel o gysondeb ar draws Cymru ac atal beth mae’n disgrifio fel ‘unedifying, and potentially damaging, ‘*race to the bottom*’. Mae CLlLC yn cefnogi safle’r ‘Panel’ ar y mater. Fodd bynnag, er bod y ‘Panel’ wedi gostwng y tebygrwydd o’r senario yma *ar draws* awdurdodau lleol Cymreig, gellir dadlau fod y cap cyflogau uwch yn annog hyn *o fewn* awdurdodau. Efallai bydd aelodau yn edrych i wneud cyfalaf gwleidyddol trwy hepgor eu cyflog uwch penodedig ac felly rhoi pwysau ar eraill i wneud yr un fath, neu deimlo o dan bwysau i hepgor rhan neu eu cyflog llawn er mwyn caniatáu rhywun arall i dderbyn eu cyflog yn lle.

37. Ers ei sefydliad, mae’r ‘Panel’ wedi hyrwyddo a chydnabod rôl heriol y cynghorydd modern ac wedi edrych i roi fframwaith o lwfansau yn ei lle sy’n cydnabod ymrwymiad a chyfrifoldebau’r cynghorwyr sy’n gwneud rolau gwahanol ac ymdrechgar. Felly, mae’n bryderus fod y ‘Panel’ yn ymddangos fel eu bod yn gwyro o’r safle hwn drwy atal ei Fframwaith o Egwyddorion ei hunan a ddylai danategu ei benderfyniadau.

38. Wrth nodi fod nifer o awdurdodau yn gweithredu uwch ben y capiau cyflog uwch arfaethedig ar hyn o bryd, ac nad oes 'dim cyfyngiad ar y nifer o swyddog gall gyngor benderfynu sy'n angenrheidiol i rheoli busnes y cyngor...yr unig gyfyngiad yw ar y nifer o swyddi sy'n gallu cael cydnabyddiaeth ariannol' (llythyr gan Gadeirydd y 'Panel' i Brif Weithredwr CllLC), mae'r 'Panel' yn cydnabod fod aelodau (uwchben a thros y cap) yn gallu arfer safleoedd o gyfrifoldebau arwyddocaol ond efallai na fyddant yn cael ad-daliad amdanynt.

39. Mae'r ymagwedd hwn yn ymddangos i fod i'r cyferbyn yn enwedig i egwyddor 'Cydnabyddiaeth Ariannol' y 'Panel':

"*2.3 Mae'r Fframwaith yn rhoi taliad i aelodau o awdurdodau cyhoeddus sy'n dal cyfrifoldeb am wasanaethu eu cymunedau arbennig. Ni ddylai'r lefel o gydnabyddiaeth ariannol fod yn rhwystr i gymryd neu barhau yn y swydd. Mae'r Fframwaith yn darparu ad-daliad ychwanegol i'r rhai sydd â lefel uwch o gyfrifoldebau.*

40. Mae CLlC (a hyd yn hyn, y 'Panel') o'r farn os yw aelodau yn gallu gwneud cyfrifoldeb ychwanegol, dylent gael eu cydnabod a'u had-daliad gan hynny. I'r gwrthwyneb, efallai byddai cynghorau yn cael trafferth recriwtio aelodau i rolau uwch allweddol yn y cyngor os oes disgwyl i'w aelodau gymryd llwyth gwaith ychwanegol a gwneud cyfrifoldebau ychwanegol sylweddol heb unrhyw ad-daliad neu gydnabyddiaeth.

41. Mae llythyr Cadeirydd y 'Panel' i CLlLC wedi egluro fod gan yr awdurdod ddisgresiwn llwyr ar faint o swyddi swyddogaethol uwch sy'n cael eu hapwyntio, ond bod cap ar faint o'r swyddi yma sy'n cael eu had-dalu. Fodd bynnag, mae'r Adroddiad drafft yn agored i ddehongliad ehangach, allai achosi anhrefn os nad yw'n cael ei ddiwygio, gan ei fod yn awgrymu nad oes dim disgresiwn wrth dalu cyflogau uwch cymhwysol (pwyslais wedi ei ychwanegu):

"Para. 3.21 Gan roi ystyriaeth i amser, gwerth a chyfrifoldebau uwch penaethiaid dinesig...mae'r pennaeth dinesig yn cael <u>taliad</u> cyflog uwch...fel a ganlyn..."

"Para 3.22 …Bydd Cyflogau Uwch a nodir isod <u>yn cael</u> eu talu...."

## Rolau ychwanegol Arweinwyr ac Aelodau o'r Cabinet

42. Mae'r CLlLC yn bryderus am oblygiadau dealltwriaeth ac argymhellion y 'Panel' am rolau ychwanegol a chyflogau ar gyfer 'Deiliaid swyddi Band 1 a 2' (arweinwyr ac aelodau o'r cabinet).

43. Mae'r 'Panel' yn nodi fod arweinwyr ac aelodau o'r cabinet 'angen ymrwymiad llawn amser' ac yn cael eu had-dalu'n unol â hynny. Mae'r Adroddiad Blynyddol drafft yn mynd ymhellach gan awgrymu 'dylai deiliaid swyddi ystyried yn ofalus os ydynt yn gallu rhyddhau unrhyw gyfrifoldebau cyhoeddus pellach efallai eu bod yn dal yn rhywle arall...'

44. Tra bod y 'Panel' yn awgrymu y dylai aelodau ymarfer eu disgresiwn a'u safbwynt eu hunain, mae ei gynhwysiad yn yr adroddiad yn mynegi nad yw'r 'Panel' yn cydnabod partneriaeth fel rhan allweddol o rolau aelodau uwch yn llawn. Mae hyn yn bryderus gan fod partneriaeth yn nodwedd sylfaenol o wasanaeth cyhoeddus modern ac yn rhan allweddol o gylch gwaith aelod gweithredol. Mae'r rôl weithredol yn gynyddol

gymhleth ac ni ellir ei gadw'n unig at fusnes cyngor 'mewnol', ond hefyd i wasanaeth cyhoeddus ac arweinyddiaeth gymunedol. Yn yr un modd, mae rôl pob cynghorydd yn cael eu hystyried i fod tu hwnt i siambr y cyngor yn eu rolau arweinyddiaeth cymunedol, gyda phwerau arfaethedig 'councillor call for action' ac, yn fwy ffurfiol, trwy graffu gyda dyletswydd craffu sector cyhoeddus newydd.

45. Disgwylir i aelodau o'r cabinet berfformio rolau gyda chyrff partner, pa unai mewn rôl gyswllt, rôl partneriaeth neu rôl fwy ffurfiol sy'n ymarfer swyddogaethau ar gyrff neu bartneriaethau eraill. Felly, mae partneriaeth a chydweithio yn rôl gydnabyddedig aelodau gweithredol modern, pa un ai'n cyfranogi ar drefniadau neu bartneriaethau lleol neu genedlaethol, BGLl, ar gonsortia rhanbarthol neu wrth gynrychioli'r cyngor ar gyrff cyhoeddus eraill. Fe ddylid annog aelodau i barhau eu cylch gwaith ehangach, cydweithredol a phartneriaeth ac mae'n briodol fod aelodau unigol yn gallu penderfynu neu'n gallu cael eu hapwyntio gan y cyngor i weithio uwch ben a thu hwnt i'r ymrwymiad llawn-amser mewn rolau ar gyrff allanol.

46. Gan ymestyn honiad y 'Panel' am rôl llawn amser aelod o'r cabinet ymhellach, a yw'r 'Panel' yn awgrymu na ddylai aelodau gweithredol barhau eu cyflogaeth gyda chyn gyflogwyr neu barhau gydag ymrwymiadau busnes allanol? Mae nifer o aelodau gweithredol yn bobl busnes hunan gyflogedig hefyd. Byddai'r fath gynnig yn rhwystr ac yn atal pobl rhag ystyried sefyll fel cynghorydd neu gymryd rôl uwch. Oherwydd ansicrwydd ariannol unrhyw rôl wleidyddol, ond yn enwedig rolau gweithredol nad ydynt yn derbyn y 'taliadau parasiwt' mae gan wleidyddion llawn amser eraill yr hawl iddo, ni ellir disgwyl i aelodau ymddiswyddo o ymrwymiadau busnes tymor hir o'r gath neu hepgor unrhyw ddiogelwch ariannol tymor hir.

47. Mae anghysondebau eraill ar sut mae'r mater o ymrwymiad amser ac ad-daliadau eraill yn cael eu hystyried i gynghorwyr gan y 'Panel' o'i gymharu â sut mae rolau yn cael eu deall a lwfansau'n cael eu pennu i gynrychiolwyr etholedig eraill fel Aelodau o'r Cynulliad neu Aelodau Seneddol. Mae'r rolau yma'n cael eu cydnabod ar gyfer rôl llawn amser honedig, fodd bynnag, mae rhai yn cael eu hapwyntio i swyddi o gyfrifoldeb (ac yn derbyn lwfansau cyfrifoldeb ychwanegol yn unol gyda hyn) y disgwylir iddynt gyflawni ar ben eu rolau cynrychioli a deddfwriaethol 'llawn amser'.

48. Mae ffocws arbennig y 'Panel' yn y cynnig hwn fod ad-dalu yn seiliedig ar lwyth gwaith neu ymrwymiadau amser i rolau uwch hefyd yn anghyson gyda rhesymwaith y 'Panel' o gael gwared â lwfansau cyfrifoldeb uwch is-gadeiryddion pwyllgorau yn flaenorol. Pan roddodd Lywodraeth y Cynulliad ddadleuon ar wahanol lwythi gwaith, yn enwedig am is-gadeiryddion rheoleiddio mewn awdurdodau trefol, nododd y 'Panel' yn flaenorol na ellir ystyried llwyth gwaith fel ffactor wrth bennu lwfansau ond dim ond yn ystyried cyfrifoldeb ychwanegol fel ystyriaeth.

49. Yn nhermau ad-daliadau, mae'r 'Panel' yn nodi 'Ni ddylai unrhyw aelodau sy'n cael Cyflog Uwch Band 1 neu Band 2 dderbyn unrhyw gyflog ychwanegol am gynrychioli ei gyngor ar awdurdod Parc Cenedlaethol neu awdurdod tân ac achub.' Ynghyd â thybiaeth y 'Panel' fod rolau gweithredol yn llawn amser hefyd, mae hyn yn codi goblygiadau i'r cyflogau ychwanegol sydd efallai wedi, neu heb eu hawlio os fydd aelodau yn dal swyddi cyhoeddus eraill.

50. Mae CLlLC yn pryderu fod y 'Panel' yn ymddangos i fod yn esgeuluso un o'i egwyddorion allweddol unwaith eto, 'Cydnabyddiaeth ariannol' (gweler 39 uchod).

51. Os fydd aelod yn gwneud cyfrifoldebau ychwanegol, pa unai o fewn y cyngor neu ar gorff cyhoeddus arall, fel awdurdod parc cenedlaethol neu awdurdod tân ac achub, fe ddylai ef/hi gael cydnabyddiaeth ariannol yn unol â hynny.

52. Gallai cynnig y 'Panel' gael effaith penodol ar gyrff partner, yn enwedig aelodaeth awdurdodau parc cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub. Mae cyfranogiad aelodau gweithredol ar yr awdurdodau yma'n cael ei gydnabod i ychwanegu gwerth yn nhermau arbenigedd a phrofiad gweithredol yn ogystal â pholisi a chysylltiadau strategol i'r awdurdodau lleol cyfansoddiadol. Hefyd, mae llawer o awdurdodau wedi manteisio o aelodau gweithredol profiadol y cyngor wrth gyflawni rolau uwch o fewn awdurdodau parc cenedlaethol neu dân ac achub. Mae'r cynnig arfaethedig i atal aelodau gweithredol rhag derbyn unrhyw gyflog ychwanegol drwy eu rolau fel aelodau cyffredin neu uwch o awdurdod parc cenedlaethol neu dân ac achub yn un anghywir mewn egwyddor (gan y byddant yn ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol) ac yn anghymell cynghorwyr perthnasol a phrofiadol rhag ymgymryd â rolau o'r fath.

## Newidiadau i Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth mewn perthynas â dyletswyddau ward

53. Mae CLlLC yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig i lwfansau teithio yn fras a'r ymestyniad o ddyletswyddau cymeradwyedig i gynnwys dyletswyddau ward. Tra nad yw hyn efallai yn cael ei gefnogi neu'n gymwys ym mhob awdurdod, mae'r cynigion yn caniatáu'r awdurdodau lle byddai'n addas dewis i ddiffinio 'busnes swyddogol' i gynnwys dyletswyddau ward.

54. Fodd bynnag, mae peth bryder am ba mor hylaw fyddai'r ymagwedd i'r gweithrediad, yn enwedig ymarferoldeb a chyfrannedd unrhyw wiriadau a chydbwysedd efallai byddai'n cael eu rhoi mewn lle i swyddogion drin ceisiadau potensial yn addas a thryloyw. Gallai hyn ddod yn rhwystr yn ei gyflwyniad mewn rhai awdurdodau.

55. Tra bod yr estyniad ar lwfansau teithio o fewn ward o berthnasedd penodol i awdurdodau gwledig neu aelodau mewn wardiau gwledig, mae'r cyfyngiadau arfaethedig i geisiadau cynhaliaeth o fewn y siŵr yn gallu effeithio'r aelodau hynny mewn awdurdodau mwy neu fwy gwledig. Oherwydd matin, daearyddiaeth a'r opsiynau teithio sydd ar gael, efallai byddai'n fwy priodol, yn ariannol ac yn nhermau cyfleustra, i aelodau wneud cais am lwfans tros nos er enghraifft, os fyddai wedi ei leoli mewn rhan anghysbell o'r sir am gyfnod. Felly, mae CLlLC yn awgrymu fod peth disgresiwn a hyblygrwydd yn cael ei ganiatáu ar gyfer y fath amgylchiadau.

## Taliadau i Aelodau o Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Thân ac Achub

56. Mae CLlLC yn croesawu cynhwysiad Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Thân ac Achub o fewn cylch gwaith y 'Panel'.

57. Mae CLlLC yn nodi cynigion y 'Panel' hefyd bydd cyflogau sylfaenol a chyflogau uwch yn cael effaith ariannol amrywiol, i aelodau unigol ac awdurdodau.

58. Mae CLlLC yn pryderu fod cap arfaethedig y 'Panel' ar gyflogau uwch hefyd yn gymwys i'r Awdurdodau Tân ac Achub ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol. Er bod y pwyntiau o egwyddor am ddisgresiwn a hyblygrwydd lleol am drefniadau llywodraethu addas amlinellwyd uchod, mae'n parhau yn aneglur sut ddaeth y 'Panel' i bennu'r capiau arfaethedig ar gyfer yr Awdurdodau Tân ac Achub a Pharciau Cenedlaethol.

59. Yn debyg i'r cynigion o amgylch capiau cyflog uwch i awdurdodau lleol, mae anghysondeb o fewn yr Adroddiad drafft sy'n nodi fod yr Awdurdodau Tân ac Achub yn gallu talu uchafswm o 3 cyflog uwch, er bod 4 categori cymhwyso potensial wedi cael eu cynnwys (Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd, Cadeirydd y Prif Bwyllgor a 'Chadeirydd Pwyllgor arall').

60. Mae gan CLlLC bryderon arwyddocaol am y cyfyngiadau arfaethedig ar aelodau gweithredol awdurdodau lleol yn ymgymryd â neu'n cael ad-daliad am ddyletswyddau ychwanegol un ai fel aelod cyffredin neu uwch aelod o awdurdod parc cenedlaethol neu dân ac achub. Mae'r pryderon yma wedi cael eu hamlinellu ym mharagraff 52 uchod.

61. Mae rhesymwaith y 'Panel' am osod 'gofynion amser' am nifer o rolau mewn Awdurdodau Tân ac Achub a Pharciau Cenedlaethol yn aneglur. Er enghraifft, cyflwynwyd y 'Panel gyda 'gofyniad amser' o ragwelir o 36-60 awr y flwyddyn i aelodau'r Awdurdod Parc Cenedlaethol, fodd bynnag, nid yw'n glir pam fod y 'Panel' wedi penderfynu cytuno ar 42 awr i gyfrifo cydnabyddiaeth ariannol (sef amcangyfrif canolig Canllaw Llywodraeth Cymru ac oedd yn is na'r ffigwr ymrwymiad amser isaf ddarparwyd gan aelodau ac awdurdodau). Hefyd, mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi awgrymu bod ymrwymiadau aelodau yn llawer mwy na'r 16 diwrnod y flwyddyn mae'r 'Panel' wedi nodi i Aelodau o'r Awdurdod Tân ac Achub.

62. Mae CLlLC hefyd yn ymwybodol o nifer o gywiriadau drafftio neu eglurhad technegol i Adroddiad Blynyddol drafft y 'Panel' sydd wedi cael eu hamlygu yn ymatebion ymgynghori awdurdodau unigol ar wahân.